

CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANDDOGED A MAENAN A GYNHALIWDYD YN YSGOL LLANDDOGED, LLANDDOGED NOS LUN 10fed Medi, 2018

PRESENNOL

Cyng. Eifion Williams (Cadeirydd), Cyng. Nerys Dobson, Cyng. Hefin Martin, Cyng. Alun Morris, Cyng. John Owen, Cyng. Arwel Ll. Jones Cyng Austin Roberts, Delyth Algieri (clerc).

YMDDIHEURIADAU

Cyng. Dylan Jones , Cyng. Michael Rayner

Cadarnhau'r Cofnodion

Cadarnhawyd ac arwyddwyd cofnodion y Cyngor a gynhaliwyd ar y 25ain, Gorffennaf 2019.

Materion yn codi o'r cofnodion

EISTEDDFOD GENEDLAETHOL LLANRWST 2019

Derbyniwyd gwybodaeth gan y pwyllgor 'Apêl Llanddaged a Maenan' fod yr apêl wedi codi'r cyfanswm o arian £7500.00 yr oedd yr ardal angen ei godi tuag at yr Eisteddfod Genedlaethol sir Conwy 2019 a fydd yn cael ei gynnal yn Llanrwst Awst 2019.

CEGIN WEN, LLANDDOGED

Y Clerc wedi derbyn un amcangyfrif yn ôl o'r tri chontractwr lleol i atgyweirio'r wal ym maes parcio Cegin Wen Llanddaged gan Mr Elwyn Williams, Tyn Gwern Isaf, Llanddaged. Trafodwyd yr amcangyfrif o £650 a phasiwyd drwy i'r cynghorwyr godi dwylo eu bod yn derbyn yr amcangyfrif. Y Clerc i gysylltu gyda Mr Elwyn Williams i gychwyn ar y gwaith cyn gynted â phosib.

PONT Y GARTH, MAENAN

Cadarnhaodd Cyng. Austin Roberts fod y gwaith o syml eiddo'r mynediad wrth Bont y Garth, Maenan wedi cael ei drafod gan yr Adran Pontydd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.

MATERION CYFLWR FFYRDD O GWMPAS ARDAL LLANDDOGED A MAENAN

Trafodwyd materion cyflwr y ffyrdd o gwmpas ardal Llanddaged a Maenan. Nodwyd fod nifer o ffyrdd eraill yn ardal Conwy wedi cael eu tarmacio yn ddiweddar a bod Cyngor Llanddaged a Maenan wedi rhoi cais i ffordd Llanddaged cael ei tharmacio ers bron i flwyddyn. Soniwyd hefyd am ffordd o'r Abbey i fyny tuag at Maenan fod cyflwr y ffordd yma yn ddrwg iawn. Eglurodd Cyng. Austin Roberts fod gan yr Adran Priffyrdd system pwyntiau yn cael gosod ar gyfer y ffyrdd sydd angen ei tarmacio yn yr ardal ac nid ydi'r Adran Priffyrdd yn gweld y ffordd Llanddaged na ffordd Maenan yn cyrraedd y categori yma ond mi fydd darn o'r ffordd wrth y Rectory Llanddaged yn cael ei tharmacio yn y dyfodol agos. Awgrymodd Cyng. Austin Roberts iddo wneud trefniadau i'r swyddog o Sir Conwy sydd yn gyfrifol am raddio pa ffordd sydd yn gymwys i gael ei tharmacio ddod i'r cyfarfod nesaf o'r Cyngor Cymuned i egluro sut mae'r system pwyntiau yn cael ei gosod ar y ffyrdd sydd angen ei tarmacio.

CYLLID

Trafodwyd sefyllfa'r cyllid ar gyfer y flwyddyn 2018/19. Nodwyd fod dim cymhlethdod yn codi o'r sefyllfa gyllidol am y flwyddyn 2018/19. Nodwyd fod y Cyngor yn cadw arian wrth gefn ar gyfer materion cynnal a chadw sydd wedi codi yn ddiweddar yn ardal Llanddaged a Maenan. Hefyd mi fydd yr arian wrth gefn yn cael cadw ar gyfer materion etholiadau a all godi yn ystod y flwyddyn.

MAES PARCIO CADAIR IFAN GOCH, MAENAN

Cadarnhaodd y clerc ei bod wedi cysylltu gyda'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn Dinas, Betws y Coed ynglŷn ar plac gwybodaeth sydd yn y maes parcio, nifer o gerrig wedi disgyn i ffordd o gwmpas y plac ac angen ei gosod yn ôl.

CYNLLUNIO:

Cais rhif 0/45319 - Adeiladu Ardal / milodfa Ymarfer Corff bob tywydd i Geffylau 22m x 45m - Tŷ Capel Pwllterfyn, Ffordd Maenan, Maenan, Llanrwst LL26 0YH

1) 0/45420 – Mr Geraint Owen, Codi annedd Tir cyfagos i Rhiwlas, Ffordd Bryn Saith, Llanddoged. LL26 0BX
Trafodwyd y cais yma a phenderfynwyd anfon sylwadau i'r cyngor sir fod yr annedd arfaethedig tu allan i'r llinell ffin adeiladu pentref Llanddoged. Hefyd angen gwybodaeth os oes 'Rhybudd 106 ' ar yr annedd arfaethedig.

2) 0/45429 – Mr & Mrs Brinksman, codi stiwdio newydd, 1 Tan Lan, Llanrwst Rd, Llanddoged, LL260TT

3) 0/45427 – Mr Adrian Jones, Cynnig am ardd wedi'i godi yn y cefn / pont a drws gyda mynediad i patio (lefel llawr 1af), mewn cyswllt a'r gwaith datblygu a ganiateri / dormerau newydd i gefn y ty annedd bresennol. Tan y Bryn, Ffordd Tyrpeg Uchaf, Llanddoged.

4) 0/45478 – Mr & Mrs Anthony Ward, Estyniad a Newidiadau arfaethedig 1 Ffordd Efail Ucha, Llanddoged

Trafodwyd y ceisiadau cynllunio rhif 2,3,4 a phasiwyd fod dim gwrthwynebiad i'r ceisiadau yma.

GOHEBIAETH

- 1) Ysgol Gynradd Llanddoged - Anfoneb am dal i logi'r neuadd am gyfarfodydd y Cyngor Cymuned - £180.
- 2) Cyngor Awdit Cymru - E-bost am ragor o wybodaeth ynglŷn â materion cyllid y flwyddyn 2017/18.

CYNNAL A CHADW

- 1) Angen llenwi tyllau ffordd wrth waelod allt Argraig , Maenan.
- 2) Angen llenwi twll yn y ffordd wrth Fferm Park, Maenan.
- 3) Angen llenwi twll yn y ffordd tu allan i ysgol Llanddoged ar Ffordd Tyrpeg Uchaf.
- 4) Angen torri gwair wrth fynedfa i'r ffordd fawr A470 Tan Lan Llanrwst.
- 5) Cais i gael dwy linell felen wrth y Cilfan Bws 'Bus Stop' Llanddoged.
- 6) Ffordd Llanddoged angen cael ei tharmacio.
- 7) Ffordd i fyny o'r Abbey angen ei tharmacio.